DYFODOL DISGLAIR
BRIGHTER FUTURES

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Gyrfa Cymru

Adroddiad Blynyddol

Safonau'r Gymraeg

1 Ebrill 2021 – 31st Mawrth 2022

Rhagair

1.1 Diben yr Adroddiad	Mae Career Choices Dewis Gyrfa Ltd (CCDG), sy'n masnachu fel Gyrfa Cymru – Careers Wales, yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru ac fe'i ffurfiwyd ar 1 Ebrill 2013. Mae Gyrfa Cymru yn darparu gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd annibynnol, diduedd a dwyieithog yng Nghymru. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Gyrfa Cymru – Careers Wales i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg Dyma drydydd adroddiad blynyddol y cwmni ar weithredu ei safonau Cymraeg. Mae'r safonau sy'n berthnasol i Gyrfa Cymru wedi'u rhannu'n bedwar categori: • Cyflenwi Gwasanaethau • Llunio Polisïau • Gweithredol • Cadw Cofnodion Disgwylir i Gyrfa Cymru – Careers Wales, yn ôl ei gylch gwaith blynyddol, fodloni'r gofynion ar gyfer safonau Darparu Gwasanaethau fel y maent yn berthnasol i Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ffordd y mae'r cwmni wedi cydymffurfio â'r safonau yn y meysydd uchod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 ac yn benodol, ei fod yn gwneud y canlynol: • gweithredu'n unol â'r egwyddor sylfaenol a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; • cynnig gwasanaethau i staff a'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg; • ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ddatblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau;

	• ystyried ein prosesau gweithredol a'n prosesau cadw cofnodion mewn perthynas â'r Gymraeg; • ceisio darparu cyfleoedd sy'n annog a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan Gyrfa Cymru a bydd ar gael ar gais ym mhob un o swyddfeydd y cwmni sydd ar agor i'r cyhoedd.
1.2 Dyddiad Cyhoeddi	30 Medi 2022

Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfiaeth

2.3 Manylion uwch swyddog cyfrifol	Philip Bowden Pennaeth Ansawdd a Chynllunio
2.2 Trefniadau ar gyfer dirprwyo cyfrifoldebau gweithredol	Uwch Dîm Rheoli Gyrfa Cymru – Careers Wales sy'n goruchwylio Polisi'r Gymraeg. Tîm Gweithredol Gyrfa Cymru – Careers Wales (Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr) a'r Bwrdd sy'n atebol am Bolisi Gymraeg y cwmni. Felly, mae unrhyw drafodaethau ynghylch effeithiau strategaethau a pholisïau ar y Gymraeg yn rhan o broses gwneud penderfyniadau'r uwch dîm rheoli. Dyrannwyd cyfrifoldeb am safonau unigol i wahanol Benaethiaid Adran yn unol â'u meysydd cyfrifoldeb presennol. Cyhoeddir Polisi Safonau Cymraeg y cwmni ar wefan Gyrfa Cymru ac mae'n nodi sut mae ein sefydliad yn bwriadu cydymffurfio â'r holl Safonau sy'n berthnasol. Yn ogystal â bod ar wefan y cwmni, mae'r polisi ar gael ar gais hefyd ym mhob swyddfa sydd ar agor i'r cyhoedd. Bydd y broses o weithredu'r polisi hwn yn cael ei hadolygu'n flynyddol ac yn cael ei haddasu yn ôl y gofyn.

Asesu Cydymffurfiaeth

3.1 Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r adran hon yn cyflwyno manylion am ansawdd gwasanaethau Cymraeg yn Gyrfa Cymru, ac yn benodol y ffordd y mae'r cwmni'n bodloni Safonau Cyflenwi Gwasanaethau o dan safonau'r Gymraeg. Fel y nodwyd uchod, drwy gylch gwaith blynyddol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gyrfa Cymru fodloni'r gofynion ar gyfer safonau Cyflenwi Gwasanaethau fel y maent yn berthnasol i Lywodraeth Cymru. Mae Gyrfa Cymru yn gweithredu 67 o Safonau Cyflenwi Gwasanaethau.

Yn ystod blwyddyn fusnes 2021-22, dychwelwyd at rywbeth a oedd yn debycach i'r patrwm cyflawni a welwyd cyn-bandemig. Dechreuodd canolfannau gyrfa ac ysgolion agor a gwelsant fwy o ddarpariaeth wyneb yn wyneb yn dychwelyd, er bod dull cyfunol o gyflenwi yn dal i fod yn amlwg iawn ac mae'n debygol o barhau. Cyflwynwyd yr holl wasanaethau hyn yn unol â safonau Cyflenwi Gwasanaethau Cymraeg y cwmni.

Canfod anghenion iaith cwsmeriaid

Anfonir yr ohebiaeth gyntaf at unigolion yn ddwyieithog, a gofynnir i'r derbynnydd nodi'r iaith o'i ddewis ar gyfer gohebu â ni, a chofnodir hynny pan fydd yn hysbys. Anfonir gohebiaeth o hynny ymlaen yn yr iaith o ddewis y cwsmer. I lawer o gwsmeriaid, mae'r iaith a ffafrir ganddynt yn cael ei nodi yn yr arolwg Gwirio Gyrfa y gwahoddir pob disgybl ysgol i'w gwblhau tra byddant yn dal i fod yn yr ysgol. Yna caiff eu dewis ei storio ar gronfa ddata cwsmeriaid y cwmni.

Ar gyfer y cwsmeriaid hynny nad ydynt yn cwblhau arolwg Gwirio Gyrfa am ba reswm bynnag, bydd cynghorwyr yn yr ysgol yn gwirio dewis iaith y dysgwyr yn unigol, gan gynnwys ar gyfer unrhyw gynllun gweithredu ysgrifenedig a ddarperir. Os nad yw dewis iaith y cwsmer yn hysbys o hyd, mae gohebiaeth ysgrifenedig yn ddwyieithog.

Cyswllt Gyrfa Cymru (CGC)

Mae gan Gyrfa Cymru un prif rif ffôn sy'n cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r galwr – Cyswllt Gyrfa Cymru (CGC). Mae pawb sy'n ffonio'r gwasanaeth yn cael eu cyfarch gan neges awtomatig ddwyieithog gyda'r opsiwn i barhau naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. O'r pwynt hwnnw, ymdrinnir â'r alwad yn yr iaith o ddewis y galwr.

Mae Cyswllt Gyrfa Cymru yn gweithredu gwasanaeth ateb dwyieithog wedi'i recordio, ac mae'r neges Gymraeg i'w chlywed cyn y Saesneg a gall galwyr adael neges yn yr iaith o'u dewis. Bydd pob galwad yn cael ei dychwelyd yn yr iaith o ddewis y galwr.

Wrth gysylltu ag unigolyn dros y ffôn am y tro cyntaf, gofynnir i'r unigolyn ym mha iaith yr hoffai dderbyn galwadau gennym. Unwaith y bydd dewis iaith yr unigolyn yn hysbys, bydd yn cael ei gofnodi ar gronfa ddata cwsmeriaid Gyrfa Cymru. Bydd galwadau o hynny ymlaen yn yr iaith o ddewis yr unigolyn.

Mae dangosyddion perfformiad ar gyfer galwadau Cymraeg a Saesneg yr un fath a chânt eu cofnodi a'u monitro'n ofalus bob dydd a chânt eu hadrodd yn wythnosol ac yn fisol i reolwyr.

Cyfarfodydd

Pan fydd Gyrfa Cymru yn trefnu cyfarfodydd gydag aelod o'r cyhoedd, mae'r cwmni'n mynd ati i gynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu yn Saesneg ac yn gwirio unrhyw gofnodion perthnasol a gedwir i weld a yw'r unigolyn wedi nodi iaith o ddewis. Anfonir gwahoddiad i'r cyfarfod yn Gymraeg neu yn Saesneg os yw'r iaith a ffafrir yn hysbys. Lle nad yw hyn yn hysbys, bydd y gwahoddiad yn ddwyieithog a bydd yn cynnwys brawddeg am ddewis iaith.

Ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus, nod Gyrfa Cymru yw darparu siaradwr Cymraeg rhugl i fynychu cyfarfodydd gyda'r rhai y mae'n well ganddynt gynnal y cyfarfod yn y Gymraeg. Os nad yw hyn yn bosibl, mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael mewn cyfarfodydd. Anfonir pob gwahoddiad i gyfarfodydd yn ddwyieithog, gan ofyn i bob unigolyn roi gwybod i ni a fyddent yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

Deunydd Cyhoeddusrwydd a Ffurflenni

Mae'r holl ddeunydd a arddangosir yn gyhoeddus yn cael eu harddangos yn y ddwy iaith naill ai'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos i'r chwith neu uwchben y Saesneg, yr un mor amlwg (e.e. “wyneb i waered") neu ar wahân yn y Gymraeg ac yn Saesneg os oes rhaid cyhoeddi fersiynau ar wahân am resymau ymarferol. Bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd. Bydd pob fersiwn yn cynnwys neges yn nodi bod y cyhoeddiad ar gael yn yr iaith arall hefyd.

Mae gwybodaeth sydd wedi'i chofnodi ymlaen llaw ar ffurflenni yn ymddangos yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Trefn arferol Gyrfa Cymru yw cyhoeddi ffurflenni yn yr iaith o ddewis y cwsmer.

Y Wefan, Digidol a’r Cyfryngau Cymdeithasol

Mae pob tudalen ar wefan Gyrfa Cymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae'n rhoi opsiwn iaith i'r defnyddiwr gan ddarparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg/Saesneg gyfatebol. Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen o'n gwefan ar gael naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae'r holl apiau a gyhoeddir gan Gyrfa Cymru ar gael ac yn gwbl weithredol yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae pob cyfrif cyfryngau cymdeithasol corfforaethol (e.e. Twitter a Facebook) ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Rydym yn hyrwyddo'r cyfrifon Cymraeg ar y cyfrifon Saesneg yn rheolaidd er mwyn cynyddu nifer y dilynwyr ac rydym yn nodi diwrnodau a digwyddiadau cenedlaethol Cymru drwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant. Pan fyddwn yn derbyn gohebiaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ein trefn arferol yw ymateb yn yr iaith y'i derbyniwyd.

Yn Mehefin 2021 fe gynhaliom ni ymgyrch cyfryngau cymdeithasol o'r enw '*Siarad Cymraeg?*' er mwyn recriwtio siaradwyr Cymraeg i gefnogi gweithgareddau addysg-busnes. Cawsom 30 o ymatebion gan bobl sy'n byw ac yn gweithio mewn 15 o awdurdodau lleol gwahanol ledled Cymru, ac un o'r tu allan i Gymru. Wrth symud ymlaen, bydd y dull hwn yn cael ei ddefnyddio eto, gyda chynllun i greu cynnwys mwy amrywiol, ystyried cysylltiadau cyhoeddus cysylltiedig a/neu ganolbwyntio ar ranbarthau, sectorau penodol neu gefnogaeth ar gyfer digwyddiadau penodol mewn ymgyrchoedd yn y dyfodol.

Commented [PB1]: Happy with this section?

Tudalennau gwe sy'n gysylltiedig â phostiadau cymdeithasol:

Siarad Cymraeg? | Gyrfa Cymru (llyw.cymru)

Adborth gan gydweithwyr:

"Dwi wedi cael ychydig o gysylltiadau ac mae rhai wedi arwain at gyfarfodydd cadarnhaol. Er enghraifft, cefais gyfarfod da gyda rheolwr cangen leol o HSBC, a ddaeth ataf o ganlyniad uniongyrchol i'r ymgyrch farchnata. Mae hi wedi dweud y byddai'n hapus i gefnogi ysgolion yr ardal trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg."

"Mae 6 o'r 10 ymatebydd sy'n gweithio/byw yn ardal Caerdydd wedi gwneud (neu wedi cytuno i wneud) fideo cyn-fyfyriwr. Roedd dau mewn rolau peirianneg ac yn awyddus i siarad am lwybrau i mewn a'u taith gyrfa. Llwyddodd un person i gael cefnogaeth cydweithiwr arall yn Llundain, ac fe recordion nhw sesiwn holi-ac-ateb diddorol gyda'i gilydd. Darparwyd manylion hefyd gan y cyswllt hwn am gydweithiwr a gyfrannodd at 'Wythnos Darganfod Gyrfa' yn siarad am y dyniaethau ac ieithoedd."

"Dwi wedi gwneud cwpl o gysylltiadau defnyddiol trwy'r ymgyrch ac rwy'n hyderus y byddant yn cefnogi digwyddiadau mewn ysgolion yn ystod y misoedd nesaf felly ydy, mae wedi bod yn werth chweil yn bendant. Yma yn y Gogledd, does dim gwir brinder siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan mewn digwyddiadau oni bai bod ysgol yn chwilio am rywbeth gwirioneddol benodol nad yw efallai mor hawdd cael siaradwr Cymraeg ar ei gyfer, ond yn gyffredinol nid yw hyn yn broblem i ni (yn enwedig yn y Gogledd-orllewin). Dwi wastad yn croesawu unrhyw ymgyrch neu ddigwyddiad sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle."

Mae Gyrfa Cymru yn cynhyrchu amrywiaeth o weminarau ar feysydd a themâu galwedigaethol sy'n cynnwys arbenigwyr diwydiant a sector. Mae'r rhain yn gymysgedd o ddigwyddiadau byw a digwyddiadau a recordiwyd ymlaen llaw. Yna bydd rhai o'r digwyddiadau byw ar gael yn y modd 'dal i fyny'. Mae'r rhain yn cael eu darlledu yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae cynrychiolydd Gyrfa Cymru yn parhau i fynychu cymuned ‘adeiladu gwasanaethau dwyieithog’ y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol lle rydym yn rhannu arfer gorau a gwybodaeth am adeiladu gwasanaethau digidol yn y ddwy iaith ar gyfer ein cwsmeriaid.

Arwyddion a’r Dderbynfa

Mae'r holl arwyddion parhaol a dros dro, a'r arwyddion electronig neu gyfrifiadurol sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd, yn ddwyieithog gyda thestun Cymraeg a Saesneg yn cael ei drin yn gyfartal o ran maint, darllenadwyedd ac amlygrwydd. Ar yr holl arwyddion, mae'r testun Cymraeg yn ymddangos i'r chwith i’r testun Saesneu neu uwch ei ben fel bod y Gymraeg yn debygol o gael ei darllen gyntaf. Mae'n ofynnol i staff sy'n siarad Cymraeg wisgo laniard neu fathodyn iaith i ddangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg.

Yn yr holl dderbynfeydd cyhoeddus, croesewir ymholiadau yn y Gymraeg ac yn Saesneg ac mae arwyddion yn cael eu harddangos yn ein holl dderbynfeydd cyhoeddus yn croesawu'r defnydd o'r Gymraeg.

Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar unwaith i ddelio ag aelod o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, byddwn yn galw ar gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg i ymdrin â'r ymholiad. Mae'r cwmni wrthi'n ceisio cynyddu ei allu Cymraeg ond mae'n parhau i wynebu heriau wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg.

Rhyngwyneb cyhoeddus TGCh

Ym mhob Canolfan Gyrfaoedd, mae cyfrifiaduron mynediad cyhoeddus lle gall cwsmeriaid ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd, gan gynnwys chwilio am swyddi ac ymchwil gyffredinol, gwneud ceisiadau, llunio CV a chwisiau swyddi. Mae Gyrfa Cymru bellach yn cynnig rhyngwyneb Cymraeg ar beiriannau mynediad cyhoeddus sy'n golygu pan fydd y cwsmer yn mewngofnodi, mae blwch yn ymddangos fel y gall nodi'r iaith o'i ddewis. Ar ôl dewis iaith, mae'n llwytho bwrdd gwaith newydd gyda'r eiconau yn yr iaith a ddewiswyd yn ogystal, er enghraifft, ag arddangos bar dewislen Word ac Excel yn yr iaith a ddewiswyd.

Contractio

Ymgorfforir ystyriaethau'r Gymraeg fel y bo'n briodol ym manylebau contractau sy'n ymwneud ag unrhyw agweddau penodol ar wasanaeth cyhoeddus y mae contractwr yn eu darparu ar ran y cwmni. Mae pob Hysbysiad Contract i dendro am gontract yn nodi bod tendrau'n cael eu croesawu naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg a bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflenni yr un fath ar gyfer y ddwy iaith. Ymdrinnir â thendrau a dderbynnir yn y Gymraeg yn Gymraeg gan gynnwys, os oes angen, yr angen i gyfweld y sawl sy'n tendro.

Hysbysebu

Mae'r holl hysbysebion, a chyhoeddusrwydd a dogfennau'n hysbysebu gwasanaethu a ddarperir, ar gael naill ai'n ddwyieithog neu ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os cânt eu cyhoeddi ar y wefan, cânt eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

3.2 Safonau llunio polisi

Mae Gyrfa Cymru yn gweithredu 9 safon llunio polisi. Wrth lunio penderfyniad polisi newydd neu ddiwygio polisi sy'n bodoli eisoes, gwneir hyn yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Cynhelir asesiad o'r effaith er mwyn ystyried sut y gall y penderfyniad wneud y canlynol:

- cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;
- peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;
- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol neu leihau effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r pwyntiau uchod yn berthnasol hefyd wrth gyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi. Bydd y ddogfen yn gofyn barn ar yr effeithiau cadarnhaol neu'r cynnydd yn yr effeithiau cadarnhaol y byddai'r penderfyniad polisi sydd dan ystyriaeth yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd unrhyw waith ymchwil a gomisiynir i helpu i wneud penderfyniad polisi yn cael ei wneud yn unol â Safonau'r Gymraeg hefyd ac yn ystyried sut y gall y penderfyniad ymdrin â'r pwyntiau uchod.

3.3 Safonau Gweithredol

Mae Gyrfa Cymru yn gweithredu 51 o safonau gweithredol sy'n ymwneud â gwaith gweinyddu mewnol, a chyflwynir manylion y rhain isod.

Recriwtio

Mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau, hysbysebion, ffurflenni cais a dogfennau perthnasol eraill sy'n ymwneud â recriwtio ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hysbysebion a ffurflenni cais sy'n ymwneud â recriwtio ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac maent yn cynnwys datganiad clir bod y Gymraeg neu'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda ffurflenni cais yn darparu lle i unigolion nodi'r iaith o'u dewis ar gyfer cyfweliad neu ddull asesu arall. Caiff ymgeiswyr wneud cais yn yr iaith o'u dewis a bydd ceisiadau a dderbynnir yn y Gymraeg ac yn Saesneg yn cael eu trin yn ôl yr un amserlen, a bydd yr holl ohebiaeth yn cael ei hanfon yn y Gymraeg at y rhai sydd wedi nodi mai dyna'r iaith o'u dewis.

Caiff swyddi gwag eu hysbysebu drwy sianeli amrywiol, ond er mwyn sicrhau cyrhaeddiad ehangach o siaradwyr Cymraeg, defnyddir Safle Swyddi a Golwg 360 a defnyddir sianeli cyfryngau cymdeithasol dwyieithog y cwmni yn ogystal.

Os yw sgiliau Cymraeg wedi'u nodi fel gofyniad, lle tybir bod hyn yn angenrheidiol, caiff y sgiliau hyn eu profi yn ystod y broses recriwtio er mwyn sicrhau bod yr anghenion iaith yn bodloni'r gofyniad gwirioneddol ar gyfer yr ardal leol. Un agwedd ar y broses hon yw bod angen i ymgeiswyr fynychu canolfan asesu lle gofynnir iddynt gwblhau tasgau llafar ac ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae canolfannau asesu yn parhau i gael eu cynnal yn y Gymraeg a chynhelir cyfweliadau yn gyfan gwbl yn y Gymraeg a thrwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd hefyd.

Ar gyfer pob swydd yn y sefydliad, mae'r gallu i ynganu enwau lleoedd ac enwau personol Cymraeg, a'r gallu i ddeall a defnyddio ymadroddion sylfaenol Cymraeg, yn ofyniad hanfodol er mwyn sicrhau y gall staff arfer cwrteisi ieithyddol sylfaenol. Ar gyfer rhai swyddi newydd neu swyddi gwag a hysbysebir, efallai y bydd yn bosibl i ddeiliaid y swyddi ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i gyrraedd y safon ofynnol ar gyfer y swydd dros gyfnod o amser gan ddilyn cynllun hyfforddi y cytunwyd arno gyda chefnogaeth lawn y cwmni.

Cefnogi Staff Presennol

Gofynnir i holl aelodau staff presennol am yr iaith o'u dewis ar gyfer derbyn gohebiaeth yn ymwneud â'u cyflogaeth a gofynnir i'r holl aelodau staff newydd adeg eu penodi. Unwaith y bydd hyn yn hysbys, bydd yr iaith o'u dewis yn cael ei nodi er gwybodaeth ar gyfer y dyfodol ac o hynny ymlaen bydd gohebiaeth sy'n ymwneud â'u cyflogaeth ac sydd wedi'i chyfeirio atynt yn cael ei hanfon yn yr iaith o ddewis yr unigolyn. Yn 2021-22, mae 34 o weithwyr (tua 5.4%) wedi dewis derbyn dogfennau Adnoddau Dynol yn y Gymraeg.

Mae system AD fewnol newydd y cwmni, 'Pobl', yn integreiddio nifer o brosesau, gan gynnwys cofnodi manylion gweithwyr, lefel sgiliau Cymraeg, taflenni amser a gofyn am wyliau a'u cofnodi, a bydd yn galluogi'r holl weithwyr i gyflawni'r tasgau hyn yn iaith eu dewis iaith.

Mae holl bolisïau a gweithdrefnau'r cwmni sy'n ymwneud â'r agweddau canlynol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar y fewnrwyd:

- ymddygiad yn y gweithle;
- lles yn y gwaith (nid oes polisi penodol ar hyn ond mae polisïau a ffurflenni salwch yn ddwyieithog);
- cyflogau a buddion yn y gweithle;
- cefnogi perfformiad gwell;
- absenoldeb o'r gwaith;
- amodau gwaith;
- patrymau gwaith;

Mae'r holl brosesau mewnol wyneb yn wyneb ar gyfer gweithwyr ar gael naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg (yn seiliedig ar iaith a ffafrir y gweithiwr), gan gynnwys, er enghraifft, ymweliadau cartref oherwydd salwch, disgyblaeth a chwynion cyflogaeth.

Mewnrwyd y Cwmni

Mae pob tudalen y fewnrwyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a gall staff newid o un iaith i'r llall. Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar dudalennau'r fewnrwyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cwynion a Phrosesau Disgyblu

Mae croeso i weithwyr wneud cwynion yn yr iaith o'u dewis ac ymatebir iddynt yn yr un iaith. Os gwneir cwyn, gofynnir i'r gweithiwr a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Bydd unrhyw gyfarfod yn cael ei gynnal yn yr iaith a ffafrir gan y gweithiwr, naill ai gyda siaradwr Cymraeg rhugl neu gyda chymorth cyfieithydd ar y pryd. Cyhoeddir polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â chwynion ar y fewnrwyd ac maent ar gael i'r holl aelodau staff. Pan fydd aelod staff yn gwneud cwyn yn y Gymraeg, ymatebir i'r gŵyn yn y Gymraeg a bydd yr holl ohebiaeth a'r cyfarfodydd dilynol yn Gymraeg os mai dyna yw dymuniad y gweithiwr.

Gall gweithwyr ymateb i honiadau a wneir yn eu herbyn mewn proses ddisgyblu fewnol yn yr iaith o'u dewis. Cynigir dewis o iaith i weithwyr mewn unrhyw gyfarfod sy'n ymwneud â materion disgyblu sy'n gysylltiedig â'u hymddygiad. Mewn cyfarfodydd gydag unigolion lle mae gweithwyr yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn y Gymraeg, bydd siaradwr Cymraeg addas yn cynnal y cyfarfod neu darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Bydd gweithwyr yn cael eu hysbysu o unrhyw benderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu yn yr iaith o'u dewis

Y Broses Sefydlu

Mae proses sefydlu'r cwmni yn cynnwys rhestr wirio er mwyn sicrhau bod rheolwyr llinell yn ymdrin â gofynion Safonau'r Gymraeg gyda staff newydd, yn trafod unrhyw ofynion hyfforddiant iaith Gymraeg ac yn gofyn i'r gweithiwr newydd hunanasesu ei sgiliau iaith Gymraeg.

Dynodi Siaradwyr Cymraeg

Ar laniardiau gweithwyr, bydd siaradwyr Cymraeg naill ai'n defnyddio logo Iaith Gwaith neu'n mewnosod Siaradwr Cymraeg/Dysgwr Cymraeg i nodi eu bod naill ai'n siarad Cymraeg neu'n dysgu'r iaith. Mae staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn cael bathodyn i'w wisgo gan y cwmni.

Mae llofnodion e-bost yr holl aelodau staff gan gynnwys teitlau swyddi a manylion cyswllt yn ddwyieithog. Mae cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg yn cynnwys logo Iaith Gwaith yn eu llofnodion e-bost a gwahoddiad i gyfathrebu naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Disgwylir i negeseuon 'allan o'r swyddfa' yr holl aelodau staff fod yn ddwyieithog.

Yn adeiladau Gyrfa Cymru, mae'r holl hysbysiadau swyddogol a osodir ar waliau a hysbysfyrddau yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg i'r chwith o'r testun Saesneg neu uwchben y testun Saesneg.

Bydd yr holl destun ar arwyddion a arddangosir yng ngweithleoedd y cwmni yn cael ei brawfddarllen gan wasanaethau cyfieithu neu siaradwr Cymraeg rhugl a ddynodwyd er mwyn sicrhau cywirdeb o ran ystyr a mynegiant. Nid ydym yn gweithredu cyhoeddiadau sain yn unrhyw un o'n swyddfeydd ar hyn o bryd.

3.4 Safonau Cadw Cofnodion

Mae Gyrfa Cymru yn gweithredu 8 safon ar gyfer cadw cofnodion.

Cedwir cofnodion ar amrywiaeth o feysydd.

- Caiff cwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer pob blwyddyn ariannol eu cofnodi a'u cadw'n ganolog ac maent yn cynnwys natur y gŵyn a'r cam(camau) a gymerwn o ganlyniad i'r gŵyn. Mae gan y cwmni bolisi a gweithdrefn ar gyfer cwynion, sy'n esbonio sut mae'r sefydliad yn ymdrin â'r holl gwynion a ddaw i law, ac fe'i cyhoeddir ar wefan y cwmni, ac mae ar gael ar gais ym mhob swyddfa sydd ar agor i'r cyhoedd.
- Sgiliau Cymraeg y gweithlu. Cedwir y cofnod gan adran Datblygu Pobl y cwmni ac mae'n golygu y gellir rhedeg adroddiadau ar y sgiliau Cymraeg yn y cwmni.
- Cynhelir yr holl asesiadau i nodi lefel y Gymraeg ar gyfer pob swydd newydd a gwag ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan gynnwys gallu ieithyddol yr ymgeisydd llwyddiannus.
- Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn y Gymraeg.
- Canran yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau a ddarparwyd yn y Gymraeg.

3.5 Sgiliau Cymraeg Gweithwyr

Mae system AD fewnol y cwmni yn caniatáu cofnodi lefelau sgiliau Cymraeg holl weithwyr y cwmni. Mae'r ffigurau isod yn adlewyrchu'r adroddiad diweddaraf ar sgiliau Cymraeg ein gweithwyr yn seiliedig ar hunanasesiad o lefel sgiliau.

	Siarad	Gwrando	Darllen	Ysgrifennu
Dim dealltwriaeth	229	226	244	283
Entry	163	161	149	137
Sylfaenol	54	47	49	51
Canolradd	32	39	44	34
Uwch	29	34	28	31
Rhugl	90	90	83	61

Dim data	31	31	31	31

	Siarad	Gwrando	Darllen	Ysgrifennu
Dim dealltwriaeth	36.5%	36%	38.9%	45.1%
Mynediad	26%	25.6%	23.7%	21.8%
Sylfaenol	8.6%	7.5%	7.8%	8.1%
Canolradd	5.1%	6.2%	7.0%	5.4%
Uwch	4.6%	5.4%	4.5%	4.9%
Rhugl	14.3%	14.3%	13.2%	9.7%
Dim data	4.9%	4.9%	4.9%	4.9%

3.6 Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg i Staff

Mae dysgu a datblygu ar gyfer gweithwyr yn cynnwys hyfforddiant mewnol a ddarperir gan Gydlynwyr Dysgu a Datblygu (neu staff mewnol eraill, ee AD) a hyfforddiant a brynir i mewn yn allanol gan ddarparwyr arbenigol. Mae gweithwyr hefyd yn gallu cymryd rhan mewn dysgu ar-lein drwy becyn meddalwedd Dysgu a Datblygu dwyieithog y cwmni, Y Gronfa Ddysgu. Mae gweithwyr hefyd yn mynychu hyfforddiant allanol oddi ar y safle, yn rhad ac am ddim a hyfforddiant y telir amdano, lle bernir ei fod o werth neu'n angenrheidiol at ddibenion cydymffurfio. Mae Gyrfa Cymru wedi ehangu'r ystod o e-ddysgu sydd ar gael yn Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau, o sgiliau meddal fel magu hyder i sgiliau cyflwyno ymarferol. Cynhaliodd tîm Dysgu a Datblygu Gyrfa Cymru hyfforddiant yn y Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys pendantrwydd a sgiliau gweithwyr arweiniol.

Mewn perthynas â Safon 135, ni chynigiwyd unrhyw hyfforddiant ym meysydd recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, anwytho, nac ymdrin â'r cyhoedd yn fewnol yn ystod y cyfnod adrodd yn Gymraeg neu yn Saesneg. Darparwyd e-ddysgu ar Ddiogelwch Tân yn ddwyieithog ac mae cynlluniau i gyflwyno hyfforddiant pellach mewn iechyd a diogelwch yn ddwyieithog gan fod siaradwr Cymraeg wedi'i benodi i'r tîm iechyd a diogelwch.

Mewn perthynas â Safon 136, bernir eisoes bod cyfweliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu yn cael eu darparu'n effeithiol yn Gymraeg ac felly nid ydynt wedi cael unrhyw hyfforddiant penodol yn hyn o beth. Mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd bydd hyn yn parhau'n flaenoriaeth er mwyn parhau i ddatblygu Gyrfa Cymru – Cymru Wales fel sefydliad cwbl ddwyieithog.

Mae Gyrfa Cymru yn rhedeg Canolfan Asesu NVQ fewnol sy'n ein galluogi i gyflwyno ac achredu cymwysterau allanol. Mae tîm o Gydlynwyr Dysgu a Datblygu (LDCs), sy'n aseswyr cymwys, yn cyflwyno, asesu a gwirio'r cymwysterau. Maepump gweithiwr yn cael eu hasesu yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog ar hyn o bryd.

3.7 Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Sgiliau Cymraeg

Anogir pob gweithiwr i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg at ddibenion gwaith, a chael mynediad at adnoddau e-ddysgu y gallant eu defnyddio yn y llif gwaith. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn talu costau dosbarthiadau nos Cymraeg, ac yn annog dysgwyr Cymraeg i fynychu cyrsiau Cymraeg dwys un wythnos o hyd.

Mae Gyrfa Cymru wedi datblygu modiwl e-Ddysgu pwrpasol ar Ymwybyddiaeth y Gymraeg i bob gweithiwr, gydag adborth cadarnhaol. Mae'r modiwl yn cynnwys ymwybyddiaeth iaith, peth Cymraeg achlysurol, a safle sgiliau iaith Gymraeg yn y farchnad lafur. Mae wedi'i gynnwys yn y cyfnod sefydlu ar gyfer pob gweithiwr newydd.

Ar hyn o bryd mae'r cwmni'n cefnogi wyth o weithwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg trwy ariannu eu dosbarthiadau nos. Mae'r gwasanaeth ar-lein Cymraeg Gwaith / Work Welsh 'Croeso / Welcome', 'Croeso Nôl / Welcome Back ' a 'Gwella / Improve' i gyd ar gael i'r holl staff, ac yn orfodol ar gyfer ddechreuwyr newydd.

Mae Gyrfa Cymru yn cynnal egwyl goffi Cymraeg misol i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i rwydweithio a sgwrsio'n anffurfiol yn y Gymraeg, ac i ddysgwyr ymarfer eu sgiliau. Yn sgil y pandemig mae hyn wedi golygu defnyddio Microsoft Teams ar gyfer egwyliau coffi rhithiol. Mae defnyddio'r dechnoleg hon wedi cael y fantais ychwanegol o ganiatáu i gydweithwyr ddod at ei gilydd o bob rhan o'r cwmni lle bynnag y maent wedi'u lleoli yn y wlad.

Mewn perthynas â darparu hyfforddiant ffurfiol i staff sy'n darparu cyngor gyrfaoedd ar werth sgiliau Cymraeg yn y sector cyflogaeth, mae'r cwmni'n darparu ystod o adnoddau y mae cydweithwyr yn eu defnyddio i gael y wybodaeth ddiweddaraf am GML cyfredol sy'n cynnwys adrannau ar y galw am Sgiliau Cymraeg, yn rhanbarthol ac o fewn sectorau.

Mae dysgu hefyd yn digwydd trwy ddigwyddiadau yr ydym yn eu hwyluso ar gyfer cwsmeriaid. Er enghraifft:

- Ym mis Mehefin 2021 cyflwynodd Gyrfa Cymru **Dewis Stem**, digwyddiad Cymraeg i rieni myfyrwyr Blwyddyn 8 ac uwch sy'n ystyried dewis gyrfa o fewn diwydiannau'r sector twf STEM.

- Ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021 siaradodd gweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd, Dŵr Cymru, DWP, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Canolfan Alwadau Connect Assist a Thai Wales & West â holl ddisgyblion Blwyddyn 10 Ysgol Uwchradd Caerdydd am fanteision siarad Cymraeg yn y gweithle a theithiau gyrfa personol y gweithwyr.

3.8 Recriwtio i Swyddi Newydd a Swyddi Gwag

Caiff y sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu swydd wag yn y sefydliad eu hasesu yn gyntaf gan y Pennaeth Adran perthnasol a'r adran Datblygu Pobl gan ddefnyddio strategaeth sgiliau dwyieithog a chanllawiau strategaeth recriwtio'r cwmni, gan ystyried gofynion y swydd wag dan sylw a gallu siaradwyr Cymraeg yn y tîm. Nodir y gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg yn glir ar Ffurflen Cyfiawnhau Recriwtio y mae'n ofynnol ei chwblhau ar gyfer pob swydd newydd. Bydd lefel sgiliau Cymraeg a'r gofyniad ieithyddol yn cael eu nodi'n glir yn y datganiad ar gyfer pob swydd newydd neu swydd wag ac fe'u nodir mewn hysbysebion Cymraeg a Saesneg ar gyfer y swydd.

Er mwyn sicrhau ystyriaeth lawn o'r angen i recriwtio siaradwyr Cymraeg ar gyfer pob swydd wag, asesir anghenion iaith pob swydd wag yn fewnol ac yn allanol gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

Hanfodol	Dymunol
Nid oes neb ar gael i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.	Mae staff sy'n siarad Cymraeg eisoes ar gael, ond byddai'n ddymunol cael mwy o siaradwyr Cymraeg.
Mae angen mwy o staff â sgiliau Cymraeg i ddarparu gwasanaethau llawn i'r cyhoedd.	Mae angen unigolyn sydd â chymhwyster penodol neu brofiad arbenigol ar gyfer y swydd.
Mae'r swydd mewn ardal sydd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg/mewn cymuned Gymraeg.	Mae'r swydd mewn ardal sydd â chanran isel o siaradwyr Cymraeg.
Mae'n amhosibl darparu gwasanaeth drwy unrhyw ddull arall (e.e. ffôn)	

Cyflwynir isod y data ar gyfer recriwtio i swyddi gwag a swyddi newydd ar draws Gyrfa Cymru yn ystod 2021-22. Bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn swyddi gwag unigol ond nid pob un ohonynt.

Mae'n werth nodi bod recriwtio i swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn parhau i fod yn anodd.

Teitl y Swydd	Dyddiad yr Hysbyseb	Sgiliau Cymraeg Hanfodol/Dymunol
Administration Assistant	25/08/2021	Hanfodol ar gyfer rhai swyddi (Penfro, Aberystwyth a Queensferry)

Cynorthwy-ydd Gweinyddu	27/05/2021	Hanfodol
Cynorthwy-ydd Gweinyddu ESF	12/07/2021	Dymunol
Cynorthwy-ydd Gweinyddu	12/07/2021	Dymunol
Cynorthwy-ydd Gweinyddu	19/10/2021	Dymunol
Cynghorydd Cyswllt Busnes/dan Hyfforddiant	08/02/2022	1 Hanfodol, others Dymunol
Cynghorydd Cyswllt Busnes/dan Hyfforddiant	10/03/2022	Dymunol
Cynghorydd Cyswllt Busnes/dan Hyfforddiant	21/05/2021	Dymunol
Cynghorydd Gyrfa/dan Hyfforddiant	30/09/2021	Hanfodol
Cynghorydd Gyrfa/dan Hyfforddiant	19/05/2021	Hanfodol
CWC Supervisor	14/04/2021	Dymunol
Rheolwr Prosiect CWO	11/02/2022	Dymunol
Rheolwr Prosiect CWO	23/09/2021	Dymunol
Dadansoddwr Data a Rheolwr Mewnwelediad	26/08/2021	Dymunol
Rheolwr Prosiect Amrywiaeth a Chynhwysiant	14/12/2021	Dymunol
Cydlynydd EHE	12/04/2021	Dymunol
Cydlynydd EHE	09/03/2022	Dymunol
Cydlynydd EHE Mewnol	09/06/2021	Dymunol
Anogwr Cyflogadwyedd	11/02/2022	Dymunol
Anogwr Cyflogadwyedd	09/02/2022	Dymunol
Anogwr Cyflogadwyedd	19/10/2021	Dymunol
Anogwr Cyflogadwyedd	23/06/2021	Hanfodol
Pennaeth Digidol a Chyfathrebu	23/04/2021	Dymunol
Swyddog Adnoddau Dynol	26/08/2021	Hanfodol
Swyddog Adnoddau Dynol	22/09/2021	Dymunol
Cydlynydd Gwybodaeth GML	05/07/2021	Dymunol
Swyddog Gwybodaeth am y Farchnad Lafur	09/07/2021	Dymunol
Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu	07/07/2021	Hanfodol
Profwr Meddalwedd â Llaw	19/10/2021	Dymunol
Cynorthwy-ydd Personol i'r Prif Weithredwr	29/09/2021	Dymunol
Uwch Swyddog Gwybodaeth Rheoli	23/02/2022	Dymunol
Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata	11/02/2022	Dymunol
Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	09/06/2021	Dymunol
Mentor STEM	22/10/2021	Dymunol
Mentor STEM	26/08/2021	Dymunol
Mentor STEM	06/08/2021	Dymunol

Rheolwr Tîm	11/02/2022	Dymunol
Rheolwr Tîm	09/04/2021	Dymunol
Rheolwr Tîm (Maternity Cover)	18/05/2021	Dymunol
Rheolwr Tîm	09/02/2022	Dymunol
Rheolwr Tîm	12/01/2022	Dymunol
Cynghorydd Gyrfa / dan Hyfforddiant *	22/10/2021	Hanfodol am Gwynedd / Conwy
Cynghorydd Gyrfa / dan Hyfforddiant	17/01/2022	Hanfodol am RCT

3.9 Cwynion

Ni dderbyniodd y cwmni unrhyw gwynion yn ymwneud â'i Safonau Cymraeg yn ystod blwyddyn fusnes 2021-22.